Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cymorth ar Ôl Colli Swydd

## Cymru'n Gweithio

#newiddystori

Cer i **cymrungweithio.llyw.cymru**
Ffonia **0800 028 4844**

Gyrfa Cymru
Careers Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**



## Wy t ti wedi colli dy sw ydd? Ddim yn siŵr beth i'w wneud nesaf ? Gall Cymru'n Gweithio helpu.

Gall colli dy swydd fod yn anodd iawn, yn emosiynol ac yn ariannol, ond mae cymorth ar gael. Beth bynnag yw dy sefyllfa, mae Cymru'n Gweithio yma i dy helpu i symud ymlaen yn hyderus ar ôl i ti golli dy swydd.

**Efallai dy fod am fynd yn ôl i weithio ar unwaith? Gall ein cynghorwyr arbenigol dy helpu i:**

- Chwilio am swydd a pharu dy sgiliau â swyddi gwag presennol.
- Diweddaru dy CV.
- Gwneud cais am swyddi a dy gefnogi gyda'r broses gyfweld.

**Efallai bod hwn yn gyfle i ti bwyso a mesur a newid cyfeiriad?**

Os wyt ti'n awyddus i ailhyfforddi neu ddiweddaru dy sgiliau ac angen cymorth ariannol, gallet fod yn gymwys i gael cyllid drwy'r cynllun ***ReAct**.

Gallwn wirio dy gymhwyster a gallet gael hyd at £1,500 tuag at eich costau hyfforddi a hyd at £200 mewn cymorth ychwanegol.

*Pan fyddi di'n cael cynnig swydd, gall dy gyflogwr newydd gael hyd at £3000 am dy gyflogi a hyd at £1000 tuag at gostau hyfforddi.*

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ac i wirio dy gymhwyster ar gyfer ReAct, ffonia Cymru'n Gweithio AM DDIM ar **0800 028 4844** neu cer i **cymrungweithio.llyw. cymru/ sut-y-gallwn-ni-helpu/ cymorth-ar-ol-colli-swydd**

*Mae ReAct yn helpu pobl sydd wedi colli eu swydd neu sy'n ddi-waith i gael sgiliau newydd ac mae'n annog cyflogwyr sy'n recriwtio i gyflogi gweithwyr sydd wedi colli eu swydd neu sy'n ddi-waith.